# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG CANOLBARTH CYMRU

**Teitl yr Adroddiad: Adroddiad Swyddog Adran 151 ar Alldro Cyllideb 2022/23 a Chyllideb 2023/24.**

**Dyddiad y Cyfarfod: 12 Hydref 2023**

| | |
|---|---|
| **Purpose of Report** | Nodi sefyllfa Alldro 2022/23 a'r diweddaraf ar y Gyllideb ar gyfer 2023/24. |
| **Awdur yr Adroddiad** | Duncan Hall |
| **Swyddog Cyllid** | Duncan Hall |
| **Swyddog Cyfreithiol** | Clive Pinney |

## 1. Alldro 2022/23:

1.1 Cymeradwywyd Cyllideb 2022/23 ar 10 Ionawr 2022. Roedd Cyfanswm y Gyllideb Gyffredinol yn £120,000 ac roedd Cyfanswm y Gyllideb Cynllunio Strategol yn £40,000.

1.2 Nodir manylion gwariant 2022/23 yn Atodiad A. Roedd y gwariant ar y Gyllideb Gyffredinol yn £61,342 ac roedd tanwariant o £58,658 sydd wedi ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd. Roedd y gwariant ar y Gyllideb Cynllunio Strategol yn £15,334 ac roedd tanwariant o £24,666 sydd wedi ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd. Y prif reswm am y ddau danwariant oedd pryderon am allu CBC y Canolbarth i hawlio yn ôl TAW– llwyddwyd i ddatrys hyn yn llwyddiannus tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

1.3 Mae'r Datganiad Blynyddol wedi ei gwblhau a'i anfon at Archwilio Cymru i'w harchwilio. Pan fydd yr archwiliad wedi ei gwblhau gofynnir i CBC y Canolbarth gymeradwyo'r datganiad blynyddol.

## 2. Cyllideb 2023/24

2.1 Cymeradwywyd Cyllideb CBC y Canolbarth ar gyfer 2023/24 ar 25 Ionawr 2023. Mae cyfanswm y Gyllideb Gyffredinol yn £131,255 ac y mae cyfanswm Cyllideb Cynllunio Strategol yn £43,745.

2.2 Mae Atodiad B yn cynnwys manylion y gyllideb wreiddiol yn ogystal ag argymhellion i ddiweddaru rhai o benawdau'r gyllideb. Mae'r gofyniad cyllideb ddiwygiedig a argymhellir ar gyfer y gyllideb gyffredinol yn cynyddu o £131,255 i £146,255 – caiff y £15,000 ychwanegol ei ariannu o'r cronfeydd arian wrth gefn. Mae'r gofyniad cyllideb ddiwygiedig a argymhellir yn cynyddu o £43,745 i £53,745 – a chaiff y £10,000 ychwanegol ei ariannu o'r cronfeydd arian wrth gefn.

## 3. Asesiad Effaith Integredig:

3.1 Nid oes angen Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr adroddiad hwn gan fod sefydlu'r CBC yn cael ei ategu gan ddeddfwriaeth a bydd yr adroddiad hwn yn sefydlu trefniadau ariannol yn unol â deddfwriaeth.

## 4. Effeithiau ar y Gweithlu:

4.1 Ar hyn o bryd yr awdurdodau cyfansoddol fydd yn ymgymryd â chyflgoaeth o fewn CBC y Canolbarth gan ailgodi'r tâl ar y CBC y Canolbarth a chymryd i ystyriaeth unrhyw faterion treth cysylltiedig.

## 5. Effeithiau Cyfreithiol:

5.1 Mae Rhan 5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer sefydlu CBCau, drwy reoliadau, a chydymffurfir â hyn a rhwymedigaethau deddfwriaethol eraill wrth sefydlu CBCau. Yn benodol, daeth Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth i rym ar 1 Ebrill 2021 gan nodi y dylid sefydlu'r CBC a'r amserlenni ar gyfer cyflawni swyddogaethau penodol.

## 6. Effeithiau o ran Rheoli Risg:

6.1 Byddai methu â phennu cyllideb gytbwys yn golygu bod Cydbwyllgor Corfforedig y Canolbarth yn torri ei rwymedigaethau gan wneud ei hun yn agored i her gyfreithiol. Yn ogystal, rhaid rhoi trefniadau addas ar waith i sicrhau bod yr awdurdodau cyfansoddol ac awdurdod y parc cenedlaethol yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol wrth sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth.

## 7. Ymgynghori:

7.1 Nid oes gofyniad i ymgynghori â'r cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

## 8. Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:

8.1 Darparu diweddariad ar y sefyllfa alldro ar gyfer 2022/23 a sicrhau bod y gyllideb ariannol ar gyfer 2023/24 wedi ei diweddaru ar gyfer CBC y Canolbarth yn unol á gofynion deddfwriaeth sy'n bethnasol i CBCau.

## 9. Argymhellion

**9.1 Argymhellir y dylai Aelodau Cyngor Ceredigion a Phowys ar CBC y Canolbarth gymeradwyo'r canlynol o ran y Gyllideb Gyffredinol:**

(a) Nodi Alldro Cyllideb Gyffredinol CBC y Canolbarth ar gyfer 2022/23 â gwariant o £61,342 fel yr amlinellwyd yn Atodiad A.

(b) Cymeradwyo Cyllideb Gwariant Cyffredinol CBC y Canolbarth o £146,255 ar gyfer 2023/24 fel yr amlinellwyd yn Atodiad B.

**9.2 Argymhellir y dylai holl Aelodau CBC y Canolbarth gymeradwyo'r canlynol o ran y Gyllideb Cynllunio Strategol:**

(a) Nodi Alldro Cyllideb Cynllunio Strategol CBC y Canolbarth ar gyfer 2022/23 â gwariant o £15,344 fel yr amlinellwyd yn Atodiad A.

(b) Cymeradwyo Cyllideb Gwariant Cynllunio Strategol o £53,745 ar gyfer 2023/24 fel yr amlinellwyd yn Atodiad B.